| **Testun Ategol** | Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru am weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau llygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>Yn rhanbarth y Gogledd, mae seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i wella cysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Metro'r Gogledd yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau yn y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau.<br>Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio rhwng arfordir y gogledd, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd yn cynnig cyfleoedd ledled y rhanbarth ac mae'n rhan hanfodol o weledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi'r rhanbarth a chysylltiadau â Phwerdy Gogledd Lloegr. | **Testun Ategol** | Mae cynigion ar gyfer Metro Gogledd Cymru yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'u cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Yn unol â P16, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau a rhanbarthau yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau mewn rhanbarthau cyfagos.<br><br>Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng | Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru am weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae ~~cynigion ar gyfer Metro~~ hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau llygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn rhanbarth y Gogledd ~~Cymru~~ , mae seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i wella cysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Metro'r Gogledd yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac ~~fe'u~~fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau yn y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bydd hwyluso mynediad i'r Metro drwy deithio llesol yn gwneud cyfraniad pwysig i newid dulliau teithio o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel ranbarthol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n cysylltu cymdogaethau a chyrchfannau teithio â gorsafoedd metro. Hefyd, bydd yn hanfodol darparu lleoedd parcio beic diogel o ansawdd uchel wrth gyfnewidfeydd.<br><br>Yn unol â pholisi 19, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr. Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y rhanbarth a Lloegr, rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd. | | Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr A55 gan gynnwys drwy ei Rhaglen Mannau Cyfyng o ymyriadau ar raddfa fach y bwriedir iddynt fynd i'r afael â mannau cyfyng lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd.<br>Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y Gogledd a Lloegr, ymchwilir i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd. | gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau.<br>Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio rhwng arfordir y gogledd, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd yn cynnig cyfleoedd ledled y rhanbarth ac mae'n rhan hanfodol o weledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi'r rhanbarth a chysylltiadau â Phwerdy Gogledd Lloegr.<br>Bydd hwyluso mynediad i'r Metro drwy deithio llesol yn gwneud cyfraniad pwysig i newid dulliau teithio o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel ranbarthol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n cysylltu cymdogaethau a chyrchfannau teithio â gorsafoedd metro. Hefyd, bydd yn hanfodol darparu lleoedd parcio beic diogel o ansawdd uchel wrth gyfnewidfeydd.<br><br>Yn unol â ~~P16, mae'n~~pholisi 19, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. ~~Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau a rhanbarthau yng Ngogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau mewn rhanbarthau cyfagos.~~ Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr. Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y rhanbarth a Lloegr, rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd.<br><br>~~Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr.~~<br><br>~~Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr A55 gan gynnwys drwy ei Rhaglen Mannau Cyfyng o ymyriadau ar raddfa fach y bwriedir iddynt fynd i'r afael â mannau cyfyng lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd.~~ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ~~Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y Gogledd a Lloegr, ymchwilir i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd.~~ |
| **Polisi 24** | **Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn, Wylfa Newydd a Thrawsfynydd mewn egwyddor fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.<br><br>Dylai datblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno er mwyn cefnogi'r rhanbarth ehangach.<br><br>Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni carbon isel, eu cyfraniad at gymysgedd a sicrwydd ynni'r DU, y manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth a'u heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.<br>Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor. | **Polisi 22** | **Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Dylai datblygiadau ynni newydd gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno er mwyn cefnogi'r rhanbarth ehangach. Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni anadnewyddadwy, eu cyfraniad at gymysgedd ynni Cymru, eu heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth. | **Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn, Wylfa Newydd a Thrawsfynydd mewn egwyddor fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.<br><br>Dylai datblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a~~-~~ Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno er mwyn cefnogi'r rhanbarth ehangach.<br><br>Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni ~~anadnewyddadwy~~carbon isel, eu~~-~~ cyfraniad at gymysgedd ~~ynni Cymru, eu heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r~~a sicrwydd ynni'r DU, y manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth~~.~~ a'u heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.<br>Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor. |
| **Cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru** | 5.7<br>6.3.10 | **Cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru** | | 5.7<br>6.3.10 |
| **Testun Ategol** | **Rhanbarth unigryw**<br>Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ynni adnewyddadwy a charbon isel a sicrhau bod y Gogledd yn chwarae ei ran wrth ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu ynni gwynt, solar a morol ac mae ganddo'r potensial i chwarae rôl barhaus wrth gynhyrchu ynni o ynni niwclear. Hefyd mae cyfle ledled y rhanbarth i gynhyrchu hydrogen er mwyn sicrhau capasiti storio ynni a ffynhonnell tanwydd trafnidiaeth ar gyfer coridor yr A55, Porthladd Caergybi a chymunedau gwledig.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Mae Rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau | **Testun Ategol** | **Rhanbarth unigryw**<br><br>Mae rheoli adnoddau naturiol eithriadol y Gogledd, sy'n cynnwys yr arfordir, dau safle treftadaeth y byd, parc cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a mwynau yn flaenoriaeth i'r rhanbarth a dylid sicrhau y gallant gael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol a helpu i sicrhau manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.<br><br>Mae gan y system gynllunio rôl allweddol o ran cefnogi ynni adnewyddadwy a sicrhau | **Rhanbarth unigryw**<br><br>~~Mae rheoli adnoddau naturiol eithriadol y Gogledd, sy'n cynnwys yr arfordir, dau safle treftadaeth y byd, parc cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a mwynau yn flaenoriaeth i'r rhanbarth a dylid sicrhau y gallant gael eu mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol a helpu i sicrhau manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.~~<br><br>Mae gan y system gynllunio rôl ~~allweddol o ran cefnogi~~bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ynni adnewyddadwy a charbon isel a sicrhau bod y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gweithredu mewn perthynas â datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal.<br><br>Gallai'r cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd ddod â manteision sylweddol cyflogaeth a hyfforddiant a manteision economaidd cysylltiedig eraill ledled y rhanbarth cyfan os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun. Gallai Adweithyddion Modiwlar Bach neu Ddatblygedig (niwclear) hefyd gynhyrchu ynni carbon isel yn y rhanbarth. Mae Trawsfynydd yn safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach, gan adeiladu ar y capasiti technegol sector-benodol presennol a'r arbenigedd sydd ar gael yn lleol a chreu parth twf diwydiant niwclear newydd. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw, ac yntau yn hen orsaf ynni niwclear sydd â'r seilwaith a'r sgiliau lleol sydd eu hangen. Lleolir y safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dylai unrhyw waith datblygu mawr yma ddilyn yr egwyddorion ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ar y cam cynllunio manwl, bydd angen ystyried y dyluniad a'r effaith ar amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys camau lliniaru posibl.<br><br>Gallai manteision economaidd posibl datblygiadau niwclear newydd, yn enwedig o ran creu swyddi uchel eu gwerth, sbarduno datblygu rhanbarthol. Bydd angen pwyso a mesur hyn yn erbyn yr effaith hirdymor y gallai'r datblygiadau mawr hyn eu cael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd oddi amgylch. | | bod y Gogledd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu gwynt, ynni solar ac ynni'r llanw.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogleddorllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Mae Rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu o amgylch datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal.<br><br>Gallai'r cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd ddod â manteision sylweddol o ran cyflogaeth, hyfforddiant a manteision economaidd cysylltiedig eraill ledled y rhanbarth cyfan os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun. Gallai Adweithyddion Modiwlar Bach (niwclear) gynhyrchu ynni carbon isel yn y rhanbarth. Mae Trawsfynydd yn cael ei hyrwyddo gan Fwrdd Cynghori Ardal Fenter Eryri ar hyn o bryd fel safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach gan adeiladu ar y capasiti a'r arbenigedd technegol sector-benodol sydd ar gael yn lleol.<br><br>Gallai manteision economaidd posibl datblygiadau niwclear newydd, yn enwedig o ran creu swyddi uchel eu gwerth, sbarduno datblygu rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd angen pwyso a mesur yr ystyriaethau hyn yn erbyn yr effaith hirdymor y gallai'r datblygiadau mawr hyn eu cael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd oddi amgylch.<br><br>Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth, ei dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol a'r ffaith ei fod yn agos at farchnadoedd yng Ngogleddorllewin Lloegr yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol.<br><br>Yn y rhanbarth, mae tywod a graean sy'n cael eu hechdynnu yn bennaf yn Wrecsam | Gogledd yn ~~cyfrannu at~~chwarae ei ran wrth ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu ynni gwynt, ~~ynni~~ solar a morol ac ~~ynni'r llanw.~~ mae ganddo'r potensial i chwarae rôl barhaus wrth gynhyrchu ynni o ynni niwclear. Hefyd mae cyfle ledled y rhanbarth i gynhyrchu hydrogen er mwyn sicrhau capasiti storio ynni a ffynhonnell tanwydd trafnidiaeth ar gyfer coridor yr A55, Porthladd Caergybi a chymunedau gwledig.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y ~~Gogleddorllewin sy'n~~ Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Mae Rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu ~~o amgylch~~ mewn perthynas â datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal.<br><br>Gallai'r cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd ddod â manteision sylweddol ~~o ran~~ cyflogaeth~~,~~ a hyfforddiant a manteision economaidd cysylltiedig eraill ledled y rhanbarth cyfan os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun. Gallai Adweithyddion Modiwlar Bach neu Ddatblygedig (niwclear) hefyd gynhyrchu ynni carbon isel yn y rhanbarth. Mae Trawsfynydd yn ~~cael ei hyrwyddo gan Fwrdd Cynghori Ardal Fenter Eryri ar hyn o bryd fel safle~~ safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach, gan adeiladu ar y capasiti ~~a'r arbenigedd~~ technegol sector-benodol presennol a'r arbenigedd sydd ar gael yn lleol~~.~~ a chreu parth twf diwydiant niwclear newydd. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw, ac yntau yn hen orsaf ynni niwclear sydd â'r seilwaith a'r sgiliau lleol sydd eu hangen. Lleolir y safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dylai unrhyw waith datblygu mawr yma ddilyn yr egwyddorion ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ar y cam cynllunio manwl, bydd angen ystyried y dyluniad a'r effaith ar amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys camau lliniaru posibl.<br><br>Gallai manteision economaidd posibl datblygiadau niwclear newydd, yn enwedig o ran creu swyddi uchel eu gwerth, sbarduno datblygu rhanbarthol. ~~Fodd bynnag, bydd~~Bydd angen pwyso a mesur ~~yr ystyriaethau~~ hyn yn erbyn yr effaith hirdymor y gallai'r datblygiadau mawr hyn eu cael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd oddi amgylch.<br>~~Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth, ei dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol a'r ffaith ei fod yn agos at farchnadoedd yng Ngogleddorllewin Lloegr~~ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a Sir y Fflint ac agregau cerrig mâl o Sir y Fflint yn cyflenwi marchnadoedd lleol a'r rhai yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Er bod dyddodion tebyg i'w cael yng Ngogledd-orllewin Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd, nid ydynt mewn sefyllfa cystal i gyflenwi'r prif farchnadoedd ac, felly, mae gweithgarwch cynhyrchu yn fwy cyfyngedig. Mae Conwy a Sir Ddinbych yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu calchfaen ar gyfer datblygiadau a phrosiectau seilwaith ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Cyfyngir ar gloddio am agregau llechi i raddau helaeth gan ddynodiadau'r Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a, lle y cânt eu hechdynnu, fe'u defnyddir fel arfer yn lleol neu ar gyfer datblygiadau uchel eu gwerth ymhellach i ffwrdd. | ~~yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol.~~<br><br>~~Yn y rhanbarth, mae tywod a graean sy'n cael eu hechdynnu yn bennaf yn Wrecsam a Sir y Fflint ac agregau cerrig mâl o Sir y Fflint yn cyflenwi marchnadoedd lleol a'r rhai yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Er bod dyddodion tebyg i'w cael yng Ngogledd-orllewin Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd, nid ydynt mewn sefyllfa cystal i gyflenwi'r prif farchnadoedd ac, felly, mae gweithgarwch cynhyrchu yn fwy cyfyngedig. Mae Conwy a Sir Ddinbych yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu calchfaen ar gyfer datblygiadau a phrosiectau seilwaith ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Cyfyngir ar gloddio am agregau llechi i raddau helaeth gan ddynodiadau'r Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a, lle y cânt eu hechdynnu, fe'u defnyddir fel arfer yn lleol neu ar gyfer datblygiadau uchel eu gwerth ymhellach i ffwrdd.~~ |
| **Polisi 25** | **Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygu cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ledled y rhanbarth. Dylai datblygiadau yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth ac anghenion cymdeithasol rhanbarthol y Canolbarth. Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:<br>• Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan<br>• Aberhonddu a'r Gororau<br>• Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair ym Muallt<br>• Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd<br>• Aberystwyth<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith datblygu ym mhob rhan o'r rhanbarth er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn penderfynu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf yn y Canolbarth a dylent ddangos sut mae dull gweithredu rhanbarthol wedi llywio penderfyniadau ynghylch twf y dyfodol. | | | **Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygu cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ledled y rhanbarth. Dylai datblygiadau yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth ac anghenion cymdeithasol rhanbarthol y Canolbarth. Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:<br>• Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan<br>• Aberhonddu a'r Gororau<br>• Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair ym Muallt<br>• Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd<br>• Aberystwyth<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith datblygu ym mhob rhan o'r rhanbarth er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn penderfynu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf yn y Canolbarth a dylent ddangos sut mae dull gweithredu rhanbarthol wedi llywio penderfyniadau ynghylch twf y dyfodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru** | 3.37 – 3.44 | **Cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru** | | 3.37 – 3.44 |
| **Testun Ategol** | **Y Canolbarth**<br>**Trosolwg**<br>Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys Ceredigion, Powys a'r rhan fwyaf o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n gartref i 205,000 o bobl. Hwn yw rhanbarth mwyaf gwledig Cymru ac mae'n cynnwys ardaloedd helaeth o ucheldir, mynyddoedd Cambria, y Mynydd Du, y Bannau ac arfordir deniadol. Dosberthir y boblogaeth rhwng trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig ledled y rhanbarth.<br>Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y Canolbarth<br><br>Gyda 58,954 o siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd.<br><br>**Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol**<br>Ledled y Canolbarth ceir amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.<br>Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.<br>Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol, gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.<br>Dylai'r rhanbarth gydweithio i ystyried y cysylltiadau â rhanbarthau'r Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, a Chanolbarth Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.<br><br>*Mapiau a graffigau'n dangos data rhanbarthol perthnasol a Diagram Rhanbarthol Strategol* | | | **Y Canolbarth**<br>**Trosolwg**<br>Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys Ceredigion, Powys a'r rhan fwyaf o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n gartref i 205,000 o bobl. Hwn yw rhanbarth mwyaf gwledig Cymru ac mae'n cynnwys ardaloedd helaeth o ucheldir, mynyddoedd Cambria, y Mynydd Du, y Bannau ac arfordir deniadol. Dosberthir y boblogaeth rhwng trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig ledled y rhanbarth.<br>Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y Canolbarth<br><br>Gyda 58,954 o siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd.<br><br>**Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol**<br>Ledled y Canolbarth ceir amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.<br>Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.<br>Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Canolbarth yn ardal fawr ac yn ardal wledig yn bennaf, gyda 39% o arwynebedd tir Cymru ond dim ond tua 7% o'r boblogaeth. Mae gan y Canolbarth dreftadaeth ddiwylliannol gref, cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac fe'i nodweddir gan drefi marchnad ac aneddiadau bach. Mae gan y Canolbarth doreth o asedau naturiol eithriadol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, sydd i gyd yn cyfrannu at arlwy twristiaeth heb ei ail. Mae daearyddiaeth economi'r Canolbarth yn elfen hanfodol wrth lywio a chefnogi twf rhyngranbarthol ledled Cymru, lle mae asedau naturiol ac academaidd yn cefnogi ymchwil o'r radd flaenaf a chyfleoedd i greu clystyrau diwydiannol newydd.<br>Mae lefel uchel o symudedd rhwng lleoedd, lle mae pobl yn teithio i gael gafael ar wasanaethau, cyfleusterau a swyddi y tu hwnt i'r man lle maent yn byw. Mae teithiau fel arfer yn hirach na'r rhai a wneir mewn ardaloedd mwy adeiledig a threfol ac maent yn dibynnu ar deithio ar y ffordd yn absenoldeb gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd rheolaidd.<br>Mae angen taro cydbwysedd gofalus rhwng yr hyn y gall aneddiadau unigol yn y rhanbarth ei gynnig a'r hyn y gall fod angen i bobl gael gafael arno mewn ardaloedd cyfagos. Gall penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau allweddol gael effaith fawr ar fywydau beunyddiol pobl, yn enwedig y rhai llai symudol, ac mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth glir o'u heffeithiau. Yn ogystal ag ysgolion a chyfleusterau iechyd, caiff mynediad at wasanaethau fel banciau, swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau gael effaith wirioneddol ar fywydau beunyddiol pobl mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Gall newid yn y boblogaeth a phoblogaethau sy'n heneiddio gael effaith ar gydbwysedd cymuned. Mae’r problemau cymdeithasol sydd y tu ôl i’r newidiadau hyn yn ehangach na’r system gynllunio, ac nid hawdd mynd i’r afael â’r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn y Canolbarth yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r ffordd y gall cymunedau gwledig gynnal eu hunain. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio cefnogi twf a datblygiadau priodol mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hyn yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy, cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi a chydgysylltu eu penderfyniadau â rhai gwneuthurwyr polisïau economaidd, a darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg, a darparwyr gwasanaethau hanfodol eraill. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.<br>Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth. Yn unol â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol, dylid canolbwyntio twf mewn pum prif ardal ledled y rhanbarth. Maent yn ganolbwyntiau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, gydag economi sylfaenol sylweddol. Bydd gwaith datblygu yn yr ardaloedd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu swyddi; cyfleoedd hamdden a manwerthu a vhyfleoedd diwylliannol; a gwasanaethau addysg ac iechyd. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn mabwysiadu dull twf a reolir ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol sy'n fodd i wella'r rolau rhanbarthol hyn.<br>Bro Hafren yw'r ardal sydd pen uchaf Afon Hafren lle mae trefi yn cynnwys y Trallwng, y Drenewydd a Llanidloes yn ganolfannau pwysig | | | penderfyniadau lleoli allweddol, gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.<br>Dylai'r rhanbarth gydweithio i ystyried y cysylltiadau â rhanbarthau'r Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, a Chanolbarth Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.<br><br>*Mapiau a graffigau’n dangos data rhanbarthol perthnasol a Diagram Rhanbarthol Strategol*<br><br>Mae'r Canolbarth yn ardal fawr ac yn ardal wledig yn bennaf, gyda 39% o arwynebedd tir Cymru ond dim ond tua 7% o'r boblogaeth. Mae gan y Canolbarth dreftadaeth ddiwylliannol gref, cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac fe'i nodweddir gan drefi marchnad ac aneddiadau bach. Mae gan y Canolbarth doreth o asedau naturiol eithriadol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, sydd i gyd yn cyfrannu at arlwy twristiaeth heb ei ail. Mae daearyddiaeth economi'r Canolbarth yn elfen hanfodol wrth lywio a chefnogi twf rhyngranbarthol ledled Cymru, lle mae asedau naturiol ac academaidd yn cefnogi ymchwil o'r radd flaenaf a chyfleoedd i greu clystyrau diwydiannol newydd.<br>Mae lefel uchel o symudedd rhwng lleoedd, lle mae pobl yn teithio i gael gafael ar wasanaethau, cyfleusterau a swyddi y tu hwnt i'r man lle maent yn byw. Mae teithiau fel arfer yn hirach na'r rhai a wneir mewn ardaloedd mwy adeiledig a threfol ac maent yn dibynnu ar deithio ar y ffordd yn absenoldeb gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd rheolaidd.<br>Mae angen taro cydbwysedd gofalus rhwng yr hyn y gall aneddiadau unigol yn y rhanbarth ei gynnig a'r hyn y gall fod angen i bobl gael gafael arno mewn ardaloedd cyfagos. Gall penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau allweddol gael effaith fawr ar fywydau beunyddiol pobl, yn enwedig y rhai llai symudol, ac mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth glir o'u heffeithiau. Yn ogystal ag ysgolion a chyfleusterau iechyd, caiff mynediad at wasanaethau fel banciau, swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau gael effaith wirioneddol ar fywydau beunyddiol pobl mewn ardaloedd gwledig. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a llewyrchus. Mae'r ardal yn cefnogi clwstwr diwydiannol sy'n bodoli eisoes o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys meysydd arbenigol penodol megis awtomeiddio a pheirianneg symud sy'n cynnig cyflogaeth gwerth uchel a photensial twf cynhyrchiant.<br>Mae Dyffryn Teifi wedi'i leoli yn rhan dde-orllewinol y rhanbarth yn gorgyffwrdd â rhanbarth y De-orllewin ac yn cynnwys trefi marchnad deniadol Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'n darparu seilwaith cysylltu y mae'r boblogaeth breswyl a'r cymunedau o'i hamgylch yn ei ddefnyddio ac yn dibynnu arno. Tra bo Aberteifi a Llandysul yn gwasanaethu cefnwledydd gwledig y tu hwnt i'r rhanbarth, mae lleoedd y tu allan i'r rhanbarth, megis Castellnewydd Emlyn, yn gwasanaethu cymunedau yn y Canolbarth yn yr un modd. Mae'n bwysig cysoni'r priod gynlluniau datblygu cyfagos a chydnabod sut y caiff gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol eu defnyddio a sut maent o fudd i bobl ym mhob rhanbarth.<br>Mae trefi Calon Cymru yn cynnwys Llandrindod, Llanfair ym Muallt a Rhaeadr Gwy ac maent yn lleoedd hanesyddol bwysig, gan ffurfio rhan o rwydwaith o drefi sba yn y Canolbarth. Mae Llandrindod yn arbennig yn parhau i ddenu ymwelwyr ac yn cadw'r bensaernïaeth a'r natur swynol a'i gwnaeth yn gyrchfan poblogaidd yn ystod oes Fictoria. Llanfair ym Muallt a Llanelwedd yw canolbwynt sector amaethyddol Cymru, gyda'r Sioe Frenhinol a gynhelir bob mis Gorffennaf yn parhau i fod yn ddigwyddiad hynod boblogaidd a phwysig yn economaidd. Mae Llanfair ym Muallt yn lleoliad strategol bwysig gan fod dau brif lwybr gogledd-de yn cwrdd yma.<br>Mae trefi Trefyclo a Llanandras sydd ar y ffin yn chwarae rolau pwysig fel canolfannau cyflogaeth a gwasanaethau pwysig, gyda chysylltiadau cryf â'r Gororau. Mae gan Aberhonddu ac Ystradgynlais gysylltiadau cryf â'r de. Cysylltir Aberhonddu gan yr A470 i Ferthyr Tudful a rhanbarth ehangach y De-ddwyrain ac mae ganddi hefyd gysylltiadau lleol cryf â'r Gelli Gandryll, Talgarth a Chrucywel i'r dwyrain. Ystradgynlais yw'r cyswllt rhwng y Canolbarth a Chymoedd diwydiannol Tawe a Nedd. Mae twristiaeth wrth wraidd economi'r ardal gydag ymwelwyr o bob cwr o'r byd yn dod i ryfeddu at y dirwedd naturiol anhygoel sy'n cynnwys y Mynydd Du a'r Bannau.<br>Aberystwyth yw'r dref fwyaf yn y rhanbarth ac mae ganddi amrywiaeth o wasanaethau pwysig, gan gynnwys y Brifysgol ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Mae'n parhau i fod yn lleoliad strategol ac yn ganolfan i sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol. Aberystwyth yw prif ganolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth ac mae'n ganolfan cyflogaeth a gweinyddol allweddol. Mae'n darparu lleoliad twristiaeth a chyfleusterau hamdden pwysig, ac mae cyfleusterau megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd i wella'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn y rhanbarth. I'r gogledd o Aberystwyth, mae Machynlleth yn gyswllt hanfodol i ranbarth y Gogledd ac yn ganolfan bwysig lle y gall aneddiadau bach ar hyd arfordir Bae Aberteifi gael gafael ar wasanaethau allweddol. Mae Aberaeron i'r de yn chwarae rôl debyg ac mae'n ganolfan weinyddol a thwristiaeth bwysig.<br>Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni cartrefi fforddiadwy ac mae'n sicrhau bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, mae angen 1,800 o gartrefi ychwanegol yn y | | | Gall newid yn y boblogaeth a phoblogaethau sy'n heneiddio gael effaith ar gydbwysedd cymuned. Mae'r problemau cymdeithasol sydd y tu ôl i'r newidiadau hyn yn ehangach na'r system gynllunio, ac nid hawdd mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn y Canolbarth yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r ffordd y gall cymunedau gwledig gynnal eu hunain. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio cefnogi twf a datblygiadau priodol mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hyn yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy, cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi a chydgysylltu eu penderfyniadau â rhai gwneuthurwyr polisïau economaidd, a darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg, a darparwyr gwasanaethau hanfodol eraill. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.<br>Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth. Yn unol â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol, dylid canolbwyntio twf mewn pum prif ardal ledled y rhanbarth. Maent yn ganolbwyntiau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, gydag economi sylfaenol sylweddol. Bydd gwaith datblygu yn yr ardaloedd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu swyddi; cyfleoedd hamdden a manwerthu a chyfleoedd diwylliannol; a gwasanaethau addysg ac iechyd. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn mabwysiadu dull twf a reolir ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol sy'n fodd i wella'r rolau rhanbarthol hyn.<br>Bro Hafren yw'r ardal sydd pen uchaf Afon Hafren lle mae trefi yn cynnwys y Trallwng, y Drenewydd a Llanidloes yn ganolfannau pwysig a llewyrchus. Mae'r ardal yn cefnogi clwstwr diwydiannol sy'n bodoli eisoes o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys meysydd arbenigol penodol megis awtomeiddio a pheirianneg symud sy'n cynnig cyflogaeth gwerth uchel a photensial twf cynhyrchiant.<br>Mae Dyffryn Teifi wedi'i leoli yn rhan dde-orllewinol y rhanbarth yn gorgyffwrdd â rhanbarth y De-orllewin ac yn cynnwys trefi marchnad deniadol Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'n darparu seilwaith cysylltu y mae'r boblogaeth breswyl a'r cymunedau o'i hamgylch yn ei ddefnyddio ac yn dibynnu arno. Tra bo Aberteifi a Llandysul yn gwasanaethu cefnwledydd gwledig y tu hwnt i'r rhanbarth, mae lleoedd y tu allan i'r rhanbarth, megis Castellnewydd Emlyn, yn gwasanaethu cymunedau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | rhanbarth tan 2039 a thros y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) dylai 61% o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n rhaid ystyried materion tai strategol ar lefel ranbarthol ac nid ar sail dyheadau awdurdodau cynllunio lleol unigol.<br>Wrth ystyried anghenion tai yn y dyfodol, mae’n glir y bydd angen i bob agwedd ar Gynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol unigol adlewyrchu'r angen amcangyfrifedig isel am dai yn y rhanbarth a beth mae hyn yn ei olygu o ran sut y gwnaiff lleoedd newid, ble y lleolir swyddi a gwasanaethau a'r gydberthynas rhwng aneddiadau.<br>Bydd polisïau 2, 3, 6 ac 8 yn sicrhau bod gwaith datblygu yn nhrefi'r rhanbarth yn cael ei leoli'n gynaliadwy mewn ardaloedd sydd â mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus lle gellir lleihau'r ddibyniaeth ar y car. Cefnogir cyfleoedd yn gryf i ddefnyddio tir cyhoeddus i ddangos arweinyddiaeth drwy greu lleoedd. Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a gwella cysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yng Nghymru a Lloegr.<br>Cefnogir ardaloedd gwledig y rhanbarth gan bolisïau 4 a 5 a fydd yn sicrhau bod cymunedau gwledig yn ffynnu, ac y'u cefnogir gan economi wledig sy'n cydnabod yr ystod amrywiol o weithgareddau sy'n cyfrannu at gymdeithas a bywyd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru am weld cysylltedd band eang helaeth a chyflym ledled y Canolbarth. Noda polisïau 13 a 14 y dull gweithredu strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau mai ardaloedd lle ceir signal gwael ar hyn o bryd yw'r prif ffocws o ran gwelliannau.  Gyda gweithio gartref yn cynyddu fel cyfran o weithgarwch economaidd, bydd gwell band eang yn allweddol er mwyn galluogi'r Canolbarth i ehangu ei sail economaidd a chael budd cymdeithasol ac economaidd.  Yn unol â pholisi 4, cred Llywodraeth Cymru mai ar lefel ranbarthol a lleol y mae'n well cynllunio dyfodol ardaloedd gwledig.  Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y cymunedau gwledig yn y rhanbarth ac yn ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld bioamrywiaeth yn gwella ac ecosystemau yn dod yn fwy cadarn ar draws y Canolbarth. Amlinella polisïau 9 a 15 y dull strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau llesiant cymunedau. Mae'r polisïau hyn yn gofyn am ystyried y math o gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau rhanbarthol a lleol a sut y gellir hwyluso hyn drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.<br>Bydd sawl mantais i gymunedau a busnesau, yn ogystal â byd natur ei hun, o fuddsoddi mewn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd. Mae angen cymryd camau i wella cadernid ym mhob rhan o'r rhanbarth a bydd dulliau penodol yn amrywio yn dibynnu ar natur y lleoliad a'r cyfleoedd i sicrhau mwy o gadernid. Lle ceir blaenoriaethau | | | yn y Canolbarth yn yr un modd. Mae'n bwysig cysoni'r priod gynlluniau datblygu cyfagos a chydnabod sut y caiff gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol eu defnyddio a sut maent o fudd i bobl ym mhob rhanbarth.<br>Mae trefi Calon Cymru yn cynnwys Llandrindod, Llanfair ym Muallt a Rhaeadr Gwy ac maent yn lleoedd hanesyddol bwysig, gan ffurfio rhan o rwydwaith o drefi sba yn y Canolbarth. Mae Llandrindod yn arbennig yn parhau i ddenu ymwelwyr ac yn cadw'r bensaernïaeth a'r natur swynol a'i gwnaeth yn gyrchfan poblogaidd yn ystod oes Fictoria. Llanfair ym Muallt a Llanelwedd yw canolbwynt sector amaethyddol Cymru, gyda'r Sioe Frenhinol a gynhelir bob mis Gorffennaf yn parhau i fod yn ddigwyddiad hynod boblogaidd a phwysig yn economaidd. Mae Llanfair ym Muallt yn lleoliad strategol bwysig gan fod dau brif lwybr gogledd-de yn cwrdd yma.<br>Mae trefi Trefyclo a Llanandras sydd ar y ffin yn chwarae rolau pwysig fel canolfannau cyflogaeth a gwasanaethau pwysig, gyda chysylltiadau cryf â'r Gororau. Mae gan Aberhonddu ac Ystradgynlais gysylltiadau cryf â'r de. Cysylltir Aberhonddu gan yr A470 i Ferthyr Tudful a rhanbarth ehangach y De-ddwyrain ac mae ganddi hefyd gysylltiadau lleol cryf â'r Gelli Gandryll, Talgarth a Chrucywel i'r dwyrain. Ystradgynlais yw'r cyswllt rhwng y Canolbarth a Chymoedd diwydiannol Tawe a Nedd.   Mae twristiaeth wrth wraidd economi'r ardal gydag ymwelwyr o bob cwr o'r byd yn dod i ryfeddu at y dirwedd naturiol anhygoel sy'n cynnwys y Mynydd Du a'r Bannau.<br>Aberystwyth yw'r dref fwyaf yn y rhanbarth ac mae ganddi amrywiaeth o wasanaethau pwysig, gan gynnwys y Brifysgol ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Mae'n parhau i fod yn lleoliad strategol ac yn ganolfan i sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol. Aberystwyth yw prif ganolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth ac mae'n ganolfan cyflogaeth a gweinyddol allweddol. Mae'n darparu lleoliad twristiaeth a chyfleusterau hamdden pwysig, ac mae cyfleusterau megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd i wella'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn y rhanbarth. I'r gogledd o Aberystwyth, mae Machynlleth yn gyswllt hanfodol i ranbarth y Gogledd ac yn ganolfan bwysig lle y gall aneddiadau bach ar hyd arfordir Bae Aberteifi gael gafael ar wasanaethau allweddol. Mae Aberaeron i'r de yn chwarae rôl debyg ac mae'n ganolfan weinyddol a thwristiaeth bwysig.<br>Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni cartrefi fforddiadwy ac mae'n sicrhau bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
